| | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 26 Mai 2016 |
| TEITL YR EITEM | Ymchwiliad Craffu Alltwen – Diweddariad |
| CADEIRYDD YR YMCHWILIAD | Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones |
| AELODAU'R YMCHWILIAD | Cynghorwyr<br>Selwyn Griffiths,<br>Siân Wyn Hughes,<br>Eryl Jones-Williams,<br>Peter Read<br>Ann Williams<br>Eirwyn Williams |
| SWYDDOG CRAFFU | Gareth James |

1 Yn dilyn sefydlu'r Ymchwiliad Craffu cynhaliwyd 2 gyfarfod o'r grŵp. Bwriad yr eitem yma yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar y gwaith a gyflawnwyd a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio.

2 Nod yr Ymchwiliad yw ateb y cwestiwn canlynol: '***A yw model gweithio integredig Cynllun Alltwen yn llwyddo i gyfarch gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014?***'

3 Bydd yr ymchwiliad yn chwilio am dystiolaeth i gyfarch y canlynol:

- Bod y ffordd newydd o weithio yn rhoi'r unigolyn sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog ac yn eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw.
- Bod y model yn galluogi Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i gydweithio'n fwy effeithiol.
- Bod y model yn galluogi Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i weithio'n fwy effeithlon.
- Dangos bod modd gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau trwy weithio yn y dull hwn.

4 <u>Cyfarfod 25 Chwefror 2016</u>

- Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar Gynllun Eifionydd yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru
- Cytunwyd ar y Brîff.

5 <u>Cyfarfod 11 Ebrill 2016</u>

- Cyfwelwyd â'r swyddogion o'r Bwrdd Iechyd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd sy'n rhan o'r Cynllun

- Roedd y sylwadau yn bositif ar y cyfan, a'r prif negeseuon oedd bod angen ehangu'r cynllun i ardaloedd eraill a bod angen cynyddu'r gwasanaethau o safbwynt y Cyngor dros y penwythnos.

6 Amserlen

- Mae'r amserlen bresennol yn anelu i gyflwyno'r Adroddiad Terfynol yn ystod mis Mai/Mehefin 2016.
- Gwnaed peth cynnydd ar y gwaith, ond mae rhai elfennau'n llithro
- Nid oes Mesuryddion wedi'u dewis hyd yn hyn. Mae'r gwaith yma'n parhau.
- Yn y Brîff fe nodir dan Adran D – Casglu Tystiolaeth –
  '*Defnyddwyr Gwasanaeth – Bydd angen ystyried yn ofalus sut y gellid cael adborth defnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion cyfrinachedd a diogelu data. Nodir y gellir casglu'r wybodaeth yma trwy'r swyddogion gweithredol sydd yn ymwneud â'r defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb heb greu pryder ymysg defnyddwyr o gael eu holi ar gyfer 'ymchwiliad'*.'
- Yn ystod cyfarfod yr Ymchwiliad gyda'r swyddogion gweithredol ym mis Ebrill, daeth yn amlwg y bydd angen ystyried ymhellach sut orau i gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

- **Mae'r aelodau'n dal i ystyried sut orau i gyflawni hyn yn ystyrlon, ac yn gofyn am estyniad i waith yr Ymchwiliad tan fis Medi 2016.**

Atodiad

Brîff yr Ymchwiliad